49. YR ADDEWID
(Dydd y Pentecost)

Mae dilynwyr Iesu wedi bod yn Jeriwsalem ers rhai dyddiau. Maent wedi ymgynnull yn yr oruwchystafell. Mae Iesu ei hunan newydd fynd yn ôl i'r nefoedd, ond cyn gadael rhoddodd iddynt nifer o gyfarwyddiadau. Rhaid iddynt fod yn dystion iddo: yn Jerwsalem i ddechrau ('Mae hynny'n iawn,' meddyliant, 'gan ein bod ni yma eisoes.'); yna'n Jwdea a Samaria (Hmm – bydd hynna'n golygu cryn dipyn o deithio) ac yn olaf hyd eithaf y ddaear (Beth, Iesu? Wyt ti o ddifrif?). Ond dyna ddywedodd Iesu: Jerwsalem, Jwdea a Samaria, a *hyd eithaf y ddaear.*

'Mewn geiriau eraill, ni sydd wedi cael y gwaith o ddweud wrth *yr holl fyd* am Iesu,' meddai Pedr wedyn.

Roedd golwg bryderus iawn ar wyneb Tomos. 'Iawn, dyna gynllun A. Dwi'n bwrw 'mhleidlais dros gynllun B.'

Ond does dim cynllun B.

Nid Tomos yw'r unig un sy'n bryderus ac ofnus. Nawr fod Iesu wedi dychwelyd at ei Dad, mae ei ddilynwyr – yn wŷr a gwragedd – i gyd yn ansicr ynglŷn â'r dyfodol. Mae'r Meistr wedi rhoi gwaith iddynt, ond gwaith sy'n ymddangos yn hynod galed, a pheryglus dros ben; wedi'r cyfan mae'r Iddewon newydd ladd Iesu. Yn ôl pob tebyg byddant eisiau cael gwared o'i ddilynwyr hefyd.

‘Does bosib eich bod chi’n awgrymu ein bod yn rhoi i fyny cyn cychwyn?’ gofynnodd Iago.

Mae pawb yn yr ystafell yn ysgwyd eu pennau’n sicr o un peth. Does neb yn ystyried troi cefn ar y genhadaeth maent wedi ei derbyn gan Dduw. Yr hyn sy’n anodd yw’r holl ddisgwyl ac ansicrwydd. Does neb yn gwybod pryd, ble na sut i gychwyn arni.

’Dech chi’n gweld, mae Iesu wedi dweud wrthynt am aros. ‘Peidiwch â gadael Jerwsalem, ond arhoswch am y rhodd yr addawodd fy Nhad i chi,’ oedd ei eiriau. ‘Roedd Ioan yn bedyddio â dŵr, ond ymhen ychydig ddyddiau cewch chi eich bedyddio â’r Ysbryd Glân.’

Felly dyna’r eglurhad am y cyfan. Dyna’r rheswm am yr holl ddisgwyl. Dim gwneud cynlluniau. Dim trafod strategaeth. Dim cyfansoddi llawlyfr dysgu: *Sut i goncro’r byd er mwyn Crist.* Dim ond disgwyl. Yn weddigar. Gerbron Duw.

Nid tasg hawdd yw disgwyl ar y gorau. Dros y dyddiau diwethaf mae Pedr ein dyn prysur wedi teimlo mai gwastraff llwyr ar amser yw’r holl aros. Mae Tomos, yr un a fu’n amau a oedd Iesu wedi atgyfodi, yn ofni y bydd yr holl ansicrwydd yn siglo’i ffydd. Mae pawb yn ansicr pa mor hir fydd rhaid iddynt aros – ai diwrnod . . . deuddydd . . . neu wythnos. Mae’r aros wedi bod yr un mor galed â dringo mynydd. Ond rywfodd, y bore hwn mae rhyw deimlad eu bod ar fin cyrraedd y copa.

Yn y cyfamser mae’r byd y tu allan wrthi’n deffro. Heddiw mae’n Ŵyl y Pentecost – gŵyl grefyddol i ddathlu cychwyn y cynhaeaf ŷd. Mae Iddewon Duwiol o bell ac agos ar eu ffordd i Jerwsalem.

Daw pelydrau haul y bore i mewn trwy ffenestr yr oruwchystafell. Ac yn sydyn, mae’n digwydd. Wwwshh! – mae sŵn tebyg i gorwynt yn ysgubo trwy’r tŷ. Ac yna mewn amrantiad mae tafodau o dân yn fflachio uwchlaw pennau’r rhai sydd yno’n gweddïo ac mae’r Ysbryd Glân yn eu llenwi â nerth. Mae’n cymryd drosodd eu tafodau ac wrth iddynt ganu mawl yn orfoleddus sylweddolant eu bod yn moli Duw mewn ieithoedd nad ydynt erioed wedi eu dysgu hyd yn oed.

Mae clywed y twrw annaearol yn peri i’r rhai sy’n cerdded heibio sefyll yn eu hunfan. Cyn hir mae torf wedi ymgynnull y tu allan i’r tŷ. ‘Hei, beth sydd yn mynd ymlaen i fyny’n fan’na?’ gwaeddant.

Nawr, petai’r criw yn yr oruwchystafell ond â’u bryd ar gael amser da, fe fyddent wedi anwybyddu’r dorf y tu allan a chario ymlaen i fwynhau’r trip ysbrydol hynod, gwefreiddiol ac anhygoel yr oeddent

yn ei brofi. Ond wrth gwrs, fe wyddent nad er mwyn hunanfoddhad y derbyniasant yr Ysbryd Glân. Mae gan yr Eglwys newydd-anedig hon gomisiwn i'w gyflawni. Felly cyn i chi fedru dweud 'Stwffiwch y Phariseaid!' mae'r aelodau allan yn y stryd yn dweud wrth bawb mor wych yw Duw.

Mae'r dorf yn cynyddu – pobl o ddwsinau o wahanol wledydd i gyd yn holi'r un cwestiynau: 'Beth sydd wedi digwydd?' 'Beth ar y ddaear sydd wedi dod dros y bobl hyn?' A'r hyn sy'n rhyfeddol yw fod pawb yn clywed y credinwyr yn siarad yn eu hieithoedd hwy eu hunain – sy'n peri mwy o ddryswch i'r dorf ac yn cynyddu eu chwilfrydedd. Nid yw'n gwneud synnwyr. Does neb yn disgwyl i bysgotwyr o Galilea fod yn arbenigwyr mewn ieithoedd.

Yn y diwedd mae Pedr yn cael y llwyfan iddo'i hun. 'Gyd-Iddewon a thrigolion Jerwsalem, gadewch i mi egluro hyn i chi.' Aiff yn ei flaen i egluro mai'r hyn a welant yw'r broffwydoliaeth y maent wedi darllen amdani yn Llyfr Joel yn cael ei gwireddu. Bryd hynny addawodd Duw y byddai'n tywallt ei Ysbryd ar bobl gyffredin, hen ac ifanc. Ac yna mae'n dwyn eu sylw at Iesu, ffynhonnell y rhodd hon. 'Edifarhewch ac ewch i gael eich bedyddio bob un ohonoch,' medd Pedr. 'Yn enw Iesu ac er maddeuant eich pechodau.'

Ac mae 3,000 yn ymateb. Ie, oddeutu 3,000 o bobl yn troi i ffwrdd oddi wrth eu hen fywyd ac yn cael eu bedyddio'r prynhawn hwnnw.

Yn ddiweddarach – lawer yn ddiweddarach – a Phedr ar fin mynd i'w wely wedi llwyr ymlâdd, mae'n sylwi ar Tomos yn eistedd yno'n moli Duw gyda gwên ddedwydd ar ei wyneb. Mae'n adnabod ei gyd-ddisgybl yn ddigon da i fentro rhyw ychydig o dynnu coes.

'Felly sut deimladau sy gen ti am gynllun A nawr, Tomi?' gofynna gan wincio. 'Ti'n cofio, yr un na wnest ti bleidleisio iddo . . .'

'Ie, ond bore 'ma oedd hynny,' meddai Tomos. 'Ond nawr . . . wel, mae'n amlwg yn tydi? Eithafoedd y ddaear, dyma ni'n dod!'

HYD: 5 munud

NEGES: Rhydd yr Ysbryd Glân nerth i ni fod yn dystion effeithiol dros Grist.

DARLLEN: Seiliwyd y stori hon ar Actau 1: 1–14 ac Actau 2: 1–41